Cyngor Cymuned  Ebrill 18 yn Neuadd Santes Ursula am 8 o'r gloch

Presennol : Huw Griffith, Fred Jones, Angharad Evans, Islwyn Jones, Lyn Davies, Dylan Davies a'r clerc

Ymddiheuriad : Morgan Morgan, Margaret Lewis, Cynghorydd Rowland Rees Evans.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

<u>Materion yn codi</u>

Dŵr ger yr Hen Ficerdy a chyflwr y Llwybr Bach
Adroddwyd bod problem y dŵr wedi ei setlo ac y byddai cyflwr y Llwybr Bach yn cael ei basio i'r adran sy'n delio gyda llwybrau cyhoeddus.
Baw cwn.  Rhannwyd gwybodaeth am gynlluniau mewn pentrefi eraill i gael plant ysgol i baratoi posteri yn tynnu sylw at broblem baw cwn wrth ochr y ffordd.  Penderfynnwyd gofyn i athrawon yr ysgol i weld a fyddai hyn yn bosibl.

<u>Gohebiaeth</u>

Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Ebrill a Clerks and Councils Direct.
Cais ar i ni roi cyhoeddusrwydd i Merchant Navy Day ar Fedi 3ydd
Cyfarwyddyd wrth y Cyngor Sir ynglŷn â thorri coed a gwrychoedd rhwng 1af Mawrth a 30 Awst
Hysbysiad Etholiad Seneddol Ewropeaidd i'w arddangos

e-byst

Gwybodaeth am sesiynnau hyfforddi ar – Ymateb i Geisiadau Cynllunio, Deall y Gyfraith,  Cynllunio ein Cynefinoedd.

Pwyllgor Cyllid y Cynulliad eisiau sylwadau ar y cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru.

Arolwg gan Data Cymru ar ran Cymdeithas Prif Swyddogion Cymru ar ansawdd y gwasanaeth cynllunio.

Canllawiau diweddaraf ar daliadau i aelodau Cynghorau Cymuned a Thref.

Materion Ariannol
Dosbarthwyd copiau o'r Cyfrifon Ariannol
Cyfrif Cyfredol – £708.56 mewn llaw (2 siec heb eu cyflwyno)
Cronfa Gymunedol  - £24126.48 mewn llaw (1 siec heb ei chyflwyno).
Derbyniwyd y cyfrifon ac arwyddwyd y llyfr cyfrifon gan y Cadeirydd a'r clerc.

Wedi derbyn Ffurflen Ariannol yr Archwilwyr Allanol. Gofyn am wybodaeth ychwanegol wahanol eleni eto. Hysbysiad am hawliau etholwyr i ymddangos ar y wefan yn ogystal ag ar hysbysfwrdd y pentre. Gofyn am brawf ein bod wedi cadw at y rheolau cyn dyfarnu contract.
Ffioedd archwilio yn codi.

Awdurdodwyd talu £300, cyflog y clerc cyn diwedd y mis.

Unrhyw fater arall
Darllenwyd llythr oddi wrth Betsan Jane, Llwynbedw, yn gofyn caniatad i roi arwyddion i gyfeirio cwsmeriaid at ei man busnes, ar ochr y ffordd. Er na ellid rhoi'r caniatad cytunwyd na fyddai unrhyw wrthwynebiad gan y Cynghorwyr iddi wneud hyn.

Cyfarfod nesaf – cyfarfod blynyddol. Gwelwyd na fyddai'n bosibl cynnal y cyfarfod ar y dyddiad arferol ac awgrymwyd nos Fawrth Mai 14 am 8 o'r gloch